

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gyflwyno Rhiannon Davies (Tanyfron) a'i theulu i ofal yr Arglwydd. Bu'n rhaid i Rhiannon gael ychwaneg o lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ddiwedd yr wythnos hon eto, ond gweddïwn i'r driniaeth fod yn llwyddiannus y tro hwn ac y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle y bydd yn cryfhau, yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd, ac y daw gwellhad yn fuan iawn iddi. Cofiw'n hefyd am Bob Davies (Llanfair) gafodd ei symud i Ysbyty Llandudno y penwythnos diwethaf. Gweddïwn ar iddo yntau adnabod tangnefedd Duw yn ei amgylchynnu.
- Llongyfarchiadau i Mr Gwyn Davies (Eglwys Hiraethog) a Mrs Elizabeth Hughes (Llansannan) fydd yn dathlu eu pen-blwydd yn 90 oed y penwythnos nesaf. Dymuniadau gorau'r Ofalaeth i'r ddau ohonynt.

Gweu i blant y byd

Cofiwch ddod â'r hetiau 'beanie' ar gyfer y cynllun *Operation Christmas Child* i Elinor Owen neu Mair **HEDDIW**, os gwelwch yn dda, er mwyn inni gael eu hanfon ymlaen i'w dosbarthu. Rydym eisoes wedi derbyn nifer fawr ohonynt! Diolch o galon i bawb ohonoch fu'n brysur yn gweu dros y misoedd diwethaf hyn, a thrwy hynny yn arddangos cariad Duw i blant mewn angen ar draws y byd.

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele, nos Iau, Tachwedd 21ain. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i Mr Caerwyn Davies am 6.00.
- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod nos Iau, Tachwedd 21ain am 7.00 yng Nghapel Ebeneser, Trelawnyd. Yn dilyn y materion busnes, bydd Mr Arwel Roberts yn ein hannerch a'n harwain at Fwrdd y Cymun.
- **GWASANAETH SEFYDLU Y PARCH. HYWEL EDWARDS** yn weinidog ar Ofalaeth Ardal Thomas Charles nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7.00 yng Nghapel Tegid, y Bala. Croeso i bawb.
- **NOSON ARBENNIG I LANSIO'R LLYFR "CAPEL CEFN MEIRIADOG DDOE A HEDDIW"** gan Mr Meurig Owen yng Nghefn Meriadog Nos Iau, Rhagfyr 5ed am 7.30. Bydd cyfle ar ôl y lansio am sgwrs, paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
- **HWYL YR WYL** ar gyfer oedrannau 7-11 oed yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Rhagfyr 7fed rhwng 10.00–5.30. Y pris fydd £12 y plentyn ac £8 i'r ail blentyn. Cysylltwch â'r Coleg erbyn Tachwedd 21ain i archebu lle: (01678) 520565.
- **GWASANAETH CAROLAU I'R FRO** yn Llansannan nos Sul, Rhagfyr 15fed am 6.00.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.00 yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Tachwedd 2013

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniaid 1:1-7

(BCND tud.164 / BCN: tud.150)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb i'n hoedfaon heddiw. Ar Sul arall, diolchwn am Arglwydd sydd wedi dod yn agos atom yn Iesu, a gofynnwn am nerth ac arweiniad ei Ysbryd i glodfori ei enw 'am dy gariad a'th ffyddlondeb, oherwydd dyrchefais dy enw a'th air uwchlaw popeth.' (Salm 138:2)

Un peth nodedig am ofalaeth Bro Aled yw'r hollt mawr i lawr ei chanol. Ar un ochr mae Sir Conwy, ac ar yr ochr arall Sir Ddinbych! Er nad yw'r ddau gyngor sir yn golygu cymaint â hynny o wahaniaeth i'n bywydau fel arfer, mae rhai o bobl Conwy wedi gweld peth newid dros yr wythnosau diwethaf, gyda threfn a bocsys ailgylchu newydd.

Bore dydd Mawrth oedd y dydd cyntaf i'r drefn newydd fod yn weithredol ar Ffordd Gogor, Llansannan a ninnau'n chwilfrydig i weld faint o wahanol lorïau fyddai'n dod i nôl y biniau. Yn hwyrach y bore hwnnw, daeth gŵr o'r criw ailgylchu at y drws. Diolchodd i ni am ailgylchu, ond eglurodd yn garedig nad oeddem wedi rhoi popeth yn y bocsys priodol, ac o'r herwydd fod gwastraff na allent eu derbyn! Tybed faint o bobl eraill dderbyniodd neges debyg?!

Gwnaeth hyn i mi feddwl – waeth faint o ymdrech o'n rhan ni sydd yn mynd i mewn i rywbeth, rhaid iddo gael ei wneud yn y ffordd gywir i gael ei dderbyn. Dyna'r ffordd y mae'r Beibl yn ein dysgu am ein hymwneud fel pobl â Duw. Nid ar sail ein daioni neu'n doethineb y cawn ein derbyn, ond trwy fod mewn perthynas â'r Un y mae Tad wedi ei yrru i'r byd i achub pechaduriaid. Crist yw'r unig ffordd gan mai ef yw'r unig gyfryngwr, ac mae pob ymdrech arall i gael ein derbyn gan Dduw yn ofer. Trwy Iesu y cawn ein gwneud yn saint, ac wrth fod yn eiddo i Iesu y cawn ddod at Dduw yn eofn a hyderus gan fod pob pechod wedi'i faddau yn sgil ei farwolaeth Ef drosom. Fel y gwelwn yn ein darlleniad o ddechrau'r Llythyr at y Rhufeiniaid, mae Paul wedi sylweddoli hyn ac ar dân i weld pobl eraill yn clywed ac yn ymateb i'r newyddion gwefreiddiol hwn trwy ddod at Iesu. Fel y dyn a ddaeth at y drws i roi cyngor i mi gyda'r bocsys ailgylchu, ydym ni'n barod i rannu Efengyl Crist gydag eraill er mwyn iddynt hwythau hefyd brofi gras a thangefedd gan Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist?

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher • **Cynhadledd Undydd Dydd Gweddï Byd-eang y Chwïorydd** yng Nghapel Bethania, Rhuthun o 10.00 – 3.00.
- **Adnabod – Grŵp Celfyn** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- **Cwis C.I.C.** ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15 yng nghwmni Gwenno Teifi.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15, a bydd Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Iau Bydd Bob Fron Felen a Bryn Foxhall yn Festri Saron am 7.30 i rannu hanes eu hymweliad â Phatagonia.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau